Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

## Preswylfeydd Haf i Fyfyrwyr (arosiadau byr) — o leiaf 7 noson
## Gwybodaeth Gyffredinol

1. LLETY (Llys Cartwright a Llys Senghennydd)

- Mae ystafelloedd ar gael rhwng hanner dydd Gwener 30 Mehefin 2023 a 10.00am, dydd Mercher 13 Medi 2023
- Mae'r holl ystafelloedd yn rhai sengl sy'n rhannu cyfleusterau. Y cyntaf i'r felin fydd hi.
- Ni ddarperir dillad gwely, clustogau, tywelion, llestri na chyllyll a ffyrc.
- Mae ystafelloedd yn £30 y noson.
- Mae cyfradd ostyngol o £25 y noson ar gael ar gyfer unrhyw arhosiad dros 29 noson o hyd.
- Gellir prynu pecynnau dillad gwely (sy'n cynnwys tywelion) am £30 (yn daladwy â cherdyn debyd/credyd yn unig), os oes rhai ar gael.

2. CADW YSTAFELL

Cadwch ystafell ar-lein yn http://bookaccommodation.cardiff.ac.uk/SSA24.bnb

- Rhaid i chi gadw ystafell o leiaf ddau ddiwrnod gwaith ymlaen llaw.
- Bydd gofyn i chi dalu'r swm llawn â cherdyn debyd/credyd wrth gadw ystafell.

3. CYRRAEDD

- Gallwch gasglu eich allweddi o'r Dderbynfa ar ddyddiad dechrau eich arhosiad yn ystod yr oriau a ddangosir isod:
  - Llys Senghennydd: Dydd Llun i ddydd Sul, rhwng hanner dydd a 10.00pm
    Heol Salisbury, Cathays, Caerdydd, CF14 4YS
  - Llys Cartwright: Dydd Llun i ddydd Gwener hanner dydd hyd at 3.00pm neu 5.00pm hyd at 10.00pm
    Stryd Daviot, Cathays, Caerdydd, CF24 4SS
- Os bydd y Dderbynfa ar gau pan fyddwch yn cyrraedd (gan gynnwys ar benwythnosau), ffoniwch y Tîm Diogelwch ar 029 2087 4444.
- Bydd angen i chi ddod â chadarnhad eich bod wedi cadw ystafell gyda chi.
- Bydd gofyn i chi ddangos eich cerdyn adnabod myfyriwr.

4. GADAEL

- Rhaid i chi adael eich ystafell a dychwelyd eich allweddi i'r Dderbynfa erbyn 10am ar y diwrnod gadael.
- Os byddwch yn dychwelyd eich allweddi ar ôl 10am ar y diwrnod gadael, codir tâl arnoch am aros noson ychwanegol.
- Os bydd eich amser gadael y tu allan i oriau gwaith, bydd angen i chi siarad i'r Dderbynfa cyn i chi adael er mwyn trafod y trefniadau gadael.
- Codir £15.82 arnoch am beidio â dychwelyd allweddi

5. NOSWEITHIAU YCHWANEGOL

- Os oes angen i chi aros yn hirach, bydd yn rhaid i chi wneud archeb newydd ar gyfer y nosweithiau ychwanegol (mae hyn yn amodol ar argaeledd ac mae'n rhaid derbyn archebion 2 ddiwrnod gwaith ymlaen llaw o leiaf)
- Cadwch ystafell ar-lein yn http://bookaccommodation.cardiff.ac.uk/SSA24.bnb

6. AD-DALIADAU

- Ni wneir unrhyw ad-daliadau.
- Ni chewch ad-daliad os byddwch yn gadael eich ystafell yn gynnar.